**Comiswn Brenhinol Henebion Cymru**
**Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales**
Ffordd Penglais | Penglais Road
Aberystwyth SY23 3BU
+44 (0)1970 621 200

chc.cymru@cbhc.gov.uk
nmr.wales@rcahmw.gov.uk

Delyth Jewell AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

19 Tachwedd 2025

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Annwyl Delyth

**Craffu'n Flynyddol ar Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru**

Rwy'n ysgrifennu i ddiolch i chi am eich llythyr dyddiedig 5 Tachwedd 2025. Ynddo, roeddech yn cynnig tynnu sylw Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol at yr effeithiau y mae'r gostyngiadau blynyddol i'n cyllideb a'r ansicrwydd parhaus ynghylch ein dyfodol yn eu cael ar y Comisiwn Brenhinol, fel corff annibynnol neu wedi'i gyfuno â Cadw yn rhan o wasanaeth newydd sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol.

Mae'n galonogol iawn i'r Comisiynwyr a'r staff wybod bod y Pwyllgor mor gefnogol i'n gwaith ac i wybod bod gennym, yn y Senedd, eiriolwyr mor ddylanwadol dros ein gwaith.

Rwy'n credu ei bod hefyd yn wir i ni ddweud bod gennym lawer o gefnogaeth ymhlith pobl Cymru, o weld pa mor boblogaidd yw ein digwyddiadau a'n negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol ac o ystyried yr adborth hyfryd yr ydym yn ei gael gan y sawl sy'n defnyddio ein gwasanaethau ymholiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae'r ffaith bod ein prosiect Capeli Cymru wedi cael grant mor sylweddol gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol hefyd yn arwydd o barch pobl at y Comisiwn, ac edrychwn ymlaen at allu cyflawni prosiect rhagorol arall a fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i dynged addoldai yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

Un arwydd yn unig yw'r prosiect hwnnw o'r ffyrdd y mae'r Comisiwn wedi esblygu yn ystod y degawd diwethaf. Ein hunig waith ar un adeg oedd creu cofnodion o adeiladau ac archaeoleg, ond erbyn hyn rydym yn ceisio cysylltu ein gwaith â'r materion sy'n bwysig i bobl.

Er enghraifft, yn ystod yr haf, mewn ymateb i alw poblogaidd a gyda phwyslais parhaus ar les meddyliol a chorfforol, gwnaethom gyflwyno 15 o anerchiadau, 9 o deithiau tywysedig a 5 o weithdai a ddenodd dros 750 o gyfranogwyr. Roedd y rhaglen honno o ddigwyddiadau'n golygu cydweithio â phartneriaid a oedd yn cynnwys Cadw, Parc Cenedlaethol Eryri, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, a'r prosiect Operation Nightingale sy'n cynorthwyo personél y lluoedd arfog a chyn-filwyr sydd wedi'u hanafu ac sy'n gwella.

Yr unig beth yr ydym yn gofyn amdano yw'r gallu i barhau â'n gwaith, ac rydym yn credu ein bod yn cynnig gwerth da am arian. Mae cydweithwyr wedi ymateb gydag ewyllys da a hyblygrwydd clodwiw i'r galwadau ychwanegol a oedd arnynt, oherwydd y swyddi a gollwyd yn ystod y cyfnod diswyddo gwirfoddol yn dilyn y toriad o 10.5 y cant i'n cyllideb yn 2024-25. Ein cais rhesymol iawn yw cais i ddychwelyd i lefelau'r cyllid yr oeddem yn ei gael cyn y toriad dan sylw, ac rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei gefnogaeth i gyrraedd y nod hwnnw.

Yr eiddoch yn gywir

Prif Weithredwr